## CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 8fed Ionawr, 2023**, yn Festri Capel Hebron, Llangwnnadl, o 7.30 p.m. hyd 8.30 p.m.
Presennol: Y Cynghorydd Glyn Roberts (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Siôn Williams (Is-Gadeirydd)
Y Cynghorwyr Elin Hughes, Gwenan Griffiths, Dylan Parry Jones, Michael Strain, Efan Thomas, Carys E. Williams Iwan J. Williams, Glenys Williams
Ymddiheuriad: Y Cynghorwyr Carys H. Evans
Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd)

79. **CYDYMDEIMLAD**
**Estynnodd** Y Cynghorydd Dylan Parry Jones (cyn Gadeirydd y Cyngor), gydymdeimlad a'r Cynghorwyr Glyn Roberts, Siôn Williams a'r Clarc ar golli eu hanwyliaid yn ystod y mis diwethaf.

80. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**
**Croesawodd** yr Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod a dymunodd flwyddyn newydd dda i bawb.

81. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**
**'Roedd** Y Cynghorydd Glyn Roberts yn dymuno datgan buddiant personol yng nghais C22/1151/32/LL a nodir o dan eitem 83 isod.

82. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 12fed RHAGFYR, 2022**
**Cyflwynwyd,** cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 12fed Rhagfyr, 2022. (Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Dylan Parry Jones ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Glenys Williams gyda phawb yn cytuno).
**Materion yn codi**
**(A)Eitem 73 - Cymal (B) Eitem 70 Newyddion i Llanw Llyn**
**Adroddod** Y Clarc na fu'n bosibl iddi anfon crynodeb o'r newyddion ar gyfer rhifyn mis Ionawr o Llanw Llyn a hynny oherwydd amgylchiadau personol, ond addawodd y byddai'n anfon y newyddion ar gyfer mis Chwefror.
**Penderfynwyd** derbyn y wybodaeth.
**(B)Eitem 75 - Materion Ffyrdd a Llwybrau**
**Adroddwyd** fod Y Cynghorydd Gareth Williams (Cyngor Gwynedd) wedi cael cysylltiad a'r Adran berthnasol yng Nghyngor Gwynedd ynglyn a chael bin halen ar Ystad Bryn Mair, Bryncroes, ac iddo dderbyn yr atebiad a ganlyn:
"Yn dilyn y newidiadau diweddar yn y drefn o ddarparu biniau halen, y cynghorau cymuned sydd bellach yn gyfrifol am ariannu unrhyw finiau ychwanegol gan gynnwys ei lenwi am y tro cyntaf.

Nid oes pris safonol o fewn ffioedd y Cyngor ar gyfer y gwasanaeth yma eto, ond fe ddarparwyd bin i gyngor cymuned arall yn ddiweddar, ar y costau canlynol.

- Bin halen newydd - £170
- Halen - £25
- Llafur (cludo/gosod/llenwi) - £125
- Cyfanswm - £320"

**Penderfynwyd** symud ymlaen i gael bin halen ar fyrder i Ystad Bryn Mair Bryncroes.
(**C)Eitem 75 - Ambiwlans Awyr Y Trallwng**
**Penderfynwyd** anfon llythyr yn gwrthwynebu'n chwyrn yr argymhelliad o symud yr ambiwlans awyr o faes awyr Caernarfon - bydd hyn ond yn ychwanegu at y broblem mae'r gwasanaeth ambiwlans yn ei wynebu ar hyn o bryd ac hefyd yn creu rhwystredigaeth a phryder i gleifion sydd angen cael eu cludo i'r Ysbyty ar fyrder.

83. **CEISIADAU CYNLLUNIO**
**Cyflwynwyd** cais C22/1151/32/LL - estyniad I adeilad anifaeliaid yn Nhir Dafydd, Sarn Mellteyrn.
**Penderfynwyd** cefnogi'r cais.
**(Datganwyd** diddordeb yn y cais hwn gan Y Cynghorydd Glyn Roberts ac ymneilltuodd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio).

84. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**
**Penderfynwyd** anfon y materion a ganlyn i sylw'r Peiriannydd Rhanbarthol, Cyngor Gwynedd:
Dail angen eu clirio a'r cwterydd angen eu glanhau ar allt Mellteyrn, Sarn
Y gwter neu'r ffos wedi cau ger Fferm Mellteyrn ac yn peri'r dwr lifo i lawr y ffordd

85. **AWDURDOD I DALU**
**Nid oedd unrhyw daliad yn ddyledus y mis hwn.**

86. **CEISIADAU ARIANNOL**

**Cyflwynwyd** ceisiadau am gyfraniadau ariannol a **phenderfynwyd** cyfrannu fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cerebal Palsy Cymru | £50.00 (siec 200768) |
| Cyfeillion Mynwent Mellteyrn | £125.00 (siec 200769) |
| Pwyllgor Rhanbarth Urdd Gobaith Cymru yn Eryri | £100.00 (siec 200770) |

Yn y cyswllt hwn ystyriwyd sylwdau'r Cynghorydd Gareth Williams (Cyngor Gwynedd) ynglyn a chyflwr mynwent Eglwys Botwnnog.
**Penderfynwyd** awgrymu fod y cyfeillion yn ffurfio pwyllgor, fel Cyfeillion Mynwent Mellteyrn a Chyfeillion Mynwent Llandegwnnig, yna byddai modd iddynt wneud ceisiadau am grantiau gan, e.e. Cyngor Cymdeithas Botwnnog, AHNE Llyn a.y.

87. **IS-BWYLLGOR CYLLID**
**Adroddwyd** fod aelodaeth yr Is-bwyllgor Cyllid yn brin gan i ddau o'r aelodau ymddeol o fod yn aelodau'r Cyngor yn ôl ym mis Mai y llynedd.
**Penderfynwyd** peidio penodi Is-bwyllgor Cyllid ond fod oll o'r Cyngor i drafod y cyfrifon a.y.
**Cyflwynodd** y Clarc fantolen ariannol hyd at ddyddiad y Cyngor ac eglurodd iddi gael ar ddeall gan Swyddog o Archwilio Cymru na ddylid cadw swm sylweddol o arian yn ôl. Y sefyllfa ar noson y Cyngor oedd fod £8,151.11 yn y cyfrif cyfredol a £2,582.34 yng nghyfrif y fynwent.
Awgrymwyd fod peth o'r arian yn cael ei wario ar lanhau Llwybr Bach, Botwnnog gan fod plant yr Ysgol Uwchradd yn ei ddefnyddio yn wythnosol gyda'u gwers ymarfer corff; fod potiau a blodau yn cael eu prynu ar gyfer y gwanwyn i'w rhoi yn y pentrefi o fewn tiriogaeth y Cyngor; fod £1,000 i'w drosglwyddo yn ôl yr arfer i Gronfa'r Fynwent.

**Penderfynwyd** derbyn y wybodaeth yn y fantolen ac fod y mater i'w drafod ymhellach yng nghyfarfod nesaf o'r Cyngor. Penderfynwyd hefyd gwneud y cyfraniad blynyddol o £1,000 i gronfa'r fynwent.

**Yn y cyswllt hwn,** ystyriwyd y praesept ar gyfer 2023/24 a **phenderfynwyd** yn wyneb yr hinsawdd bresennol, i lynu at yr un ffigwr a'r llynedd, sef £6,500.

88. **CRONFA COVID-19 LLYN AC EIFIONYDD**

**Cyflwynwyd** Dr. Arfon Williams fel a ganlyn:

"Fe gofiwch ar ddechrau y Pandemig Covid, y buoch yn garedig iawn a rhoi arian i Gronfa Covid Ty Doctor. Bu'r arian o sawl ffynhonell yn ddefnyddiol iawn yn archebu cyfarpar a darparu yn erbyn y feirws yma.

Bellach, yr ydym mewn gwell sefyllfa a mae gwell darpariaeth nag oedd yn gynnar yn 2020. Mae rhan sylweddol o arian heb ei wario, ac fe hoffem wybod beth fuaseach yn hoffi i ni wneud efo'r arian sydd dros ben. A fyddech yn hoffi'r canran heb ei wario (pro rata) yn ôl, neu byddech a diddordeb i ni ei wario mewn ffordd a fyddai er lles y gymuned? Rydym yn bryderus bod argyfwng costau byw o'n blaenau ac efallai y byddai'n bosibl creu banc bwyd lleol, neu dalebau ar gyfer prynu tanwydd ayyb. A fyddech cystal a gadael i mi wybod be yr hoffech ei wneud, neu os ydych am dderbyn yr arian yn ôl yn uniongyrchol. A fyddech cystal ac ategu eich gwybodaeth BACS yn eich hymateb er mwyn gwneud taliad, os yn derbyn yr arian yn ôl.

Diolch o gallon am eich cymorth unwaith eto ac mae'n bwysig i chwi wybod yr arian a roddoch wedi bod yn hynod bwysig i'n helpu ymdopi dros y flwyddyn neu ddwy ddwythaf."

**Penderfynwyd** gofyn am yr arian oedd yn weddill fel fod y Cyngor yn gallu ei roi yn ôl er budd trigolion y gymuned.

89. **CYRSIAU UN LLAIS CYMRU**

**Cylchredwyd** fanylion am y cyrsiau a gynigir gan Un Llais Cymru am gyfnod o dri mis - Ionawr hyd ddiwedd Mawrth.

Dywedodd Y Cynghorydd Gwenan Griffith ei bod wedi derbyn pecyn gan Un Llais Cymru ar aml bwnc ac y byddai'n eu hanfon ymlaen i'r Clarc.

Nodyn - os oes rhywun eisiau golwg ar y pecyn a fyddwch mor garedig a chysylltu a'r Clarc.

**Penderfynwyd** nodi derbyn y manylion.

90. **TENDRAU BARBIO**

**Penderfynwyd** rhoddi hysbyseb yn Llanw Llyn yn gwahodd tendrau am farbio i'r Cyngor am y flwyddyn 2023/24.

91. **BANCIAU AR STRYD FAWR PWLLHELI**

**Datganwyd** pryder fod banc y Lloyds yn cau ddiwedd yr wythnos hon ac a oedd hyn yn arwydd fod mwy o'r banciau am gau yn y dyfodol. Mae cau banc mewn tref yn amharu'n fawr ar fusnesau'r ardal ac hefyd yn cael effaith andwyol ar y stryd fawr o gofio fod tref Pwllheli yn ganolfan i dwristiaid yn ystod yr haf a llawer o ymwelwyr ym ymweld a'r ardal.

**Penderfynwyd** anfon llythyr at Mabon ap Gwynfor, yr Aelod Senddol yn gofyn a oes modd iddo ymyrryd yn y sefyllfa cyn i bethau fynd yn waeth.